**Beirniadaethau Y Gadair**
**Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024**

Cawsom un gerdd gaeth a deg cerdd rydd i'w cloriannu. Nid oes un bardd di-glem yn eu plith, a hoffai Mari a finnau eu hannog i gyd i ddal ati a gloywi eu crefft. O ran crefft mae'r iaith, at ei gilydd, yn lân; ond y gwahaniaeth rhwng y goreuon a'r gweddill yw eu delweddau annisgwyl a'u dweud bachog.

**Cadno**
Bardd mentrus ac arbrofol, â'i gerddi am frwydro yn erbyn anorecsia.
O ran y ddelwedd o erydu carreg, onid mwy esgyrnog a llai llyfn yr â'r sawl sydd yn colli pwysau. Mae'r darnau nesaf yn gryf, yn enwedig Roedd y drws ynghlo/ ymhell cyn i mi ddeall/ mai cawell oedd o. Mae'r darn arbrofol nesaf, sydd heb ei atalnodi, yn ymylu at fod yn rhyddiaeth, ond yn effeithiol.

Mae y darn sy'n cychwyn hefo Dyma'r dail braidd yn rhyddiaethol yn , mae angen tynhau y dweud; fel yn y linell wych Beth all bwyso'n fwy na cholled? . Dilynir y linell wych hon gan ddarn rhyddiaethol nad yw'n ychwanegu at y gerdd yn fy marn i.
Mae'r darn nesaf yn ddirdynol a synhwyrus, a'r rhan olaf â'i luniau o fywyd pob dydd, ond eto sy'n dweud llawer mwy yn uchafbwynt y gerdd. Llongyfarchiadau.

**Ellis Bel**
Cân am lofruddiaeth Llywelyn a'n diffyg ni'r Cymry i i deimlo'n angerddol am hynny. Mae'r llinellau A machlud ein maddeuant yn mygu/ ein goddefiant i'n gelynion yn effeithiol, ond hoffwn pe bai y bardd yn tynnu mwy o luniau i ni, a pheidio pentyrru enwau a berfenwau. Mae'r linell. Daw cân angladdol yn ôl â'r llanw yn gynnil, ac yn creu darlun yn y dychymyg. Mwy o linellau tebyg a byddai'n fardd i'w wylio.

**Erin**
Cerdd am y cyfnod clo ac am y newid chwyldroadol yn ein bywydau, a gwrthryfel y bardd yn erbyn y ffaith na fu newid go iawn, mae darnau gwych e.e.Yn yr oriau monocrom/mygwyd cynnydd fel marwor coelcerth a'r corwynt wedi cyfri ei fysedd i gyd. Nid wyf yn hoff o'r darn rhyddiaethol

Ar yr un pryd,/ dwi'n gweld y cynllun/ mor glir ag y mae/ ar bapur yr un a'i cynlluniodd . Weithiau gall orweithio ei ddelweddau nes cymylu'r ystyr e.e. Yn sownd dan gusan gwamal/ rhamant cestyll tywod. Ond mae y dweud bachog e.e. A chysur yr haul yn ôl o'i gesail yn brawf fod y bardd yn ei medru hi.

**Ffanfferwr**
Er y ffugenw bardd tawel ydyw, mae ei gerddi gwyrdd syml am wrthryfel natur yn hyfryd i'w darllen. Mae'r gerdd am Shelley a Nant Gwyllt yn drawiadol â mwy o ymgais i ddelweddu e.e. Llifais drwy ansoddeiriau'r hen feirdd . Mae'r gerdd gyntaf y rhes o sylwadau syml hefo tro yn ei chynffon ond gallai'r dweud fod yn fwy gwreiddiol. Mae'r gerdd olaf yn gorffen yn gryf.

**Galanthus**

Dyma fardd aeddfetaf y gystadleuaeth. Cerdd am golli tad, a sut y mae ymdopi â hynny. Mae ei ddelweddau'n ddiymdrech ac y taro deuddeg bron pob tro. Gwrandewch ar hyn rwy'n disgwyl/i'r ffon ddu gloffi drwy'r drws/cyn gorffwys ei gorun ar y gwresogydd. Dim disgwyl Tad, ond disgwyl y ffon, a honno sydd yn gorffwys ei chorun – bendigedig. Mae yna fanion lle gellir gwella e.e. dychwelyd nid dychwel sy'n naturiol i mi. Gall ganu yr un mor llwyddiannus ar fydr ac odl. Er mor hyfryd yw gweddi'r epilog buaswn wedi gorffen ar yn egin yfory ir i gyd fynd â'r ffugenw Galanthus (eirlysiau), ond chwaeth bersonol yw hynny.

**Gwenllian**

Bardd cryf arall â'i gerddi yn ymateb i'r wefan Queering the map. Mae ei rethreg yn ymylu at fynd dros ben llestri ar brydiau, ond mae'n dal yn ôl â'r dweud yn ddisgybliedig - Carcharorion breuddwydion ydym ni,/yn ôl rhai,/am ein bod ni'n mynnu byw. Mae'r iaith yn chwithig i'm clust i weithiau e.e.cyn gwibiwn yn lle cyn y gwibiwn neu cyn gwibio; i fentro ar weld hyfrydwch y machlud, a weithiau nid yw'r dweud yn argyhoeddi – a chanitawn i'n dolefon/ waedu a brathu fel chwyn milain. Gyda llaw dolefau sy'n gywir; ai chwain, nid chwyn a olygai'r bardd ? Manion yw rhain gan fod y cerddi yn argyhoeddi ac ar eu orau - Heno codwn deilchion y casineb/ a brofem a'u gwau at ei gilydd,/ â sidan aur; rhywle i solas nythu ynddi/ a'i alw'n gartef , mae''n codi i dir uchel. Pam coma ar ôl gilydd? ac eu nid ei sy'n gywir. Pe bai wedi tacluso'r manion yma, a thynhau y dweud yma ac acw, byddai wedi gwneud tasg y beirniaid o ddewis enillydd yn anoddach.

**Gwrthryfela**

Bardd sy'n gwrthryfela yn erbyn erchylltra rhyfel. Mae'r farddoniaeth yn llafurus ar brydiau, ond mae cyffyrddiadau gwych e.e.yn diferu/ fesul diferyn fel cwyr ar ganwyll ac wrth i'r niwl garcharu'r chwithdod. Cymharwch hanner cyntaf ag ail hanner eich pennill cyntaf; mae'r hanner cyntaf braidd yn niwlog, a'r ail hanner yn ddelwedd glir. Mae yma addewid, dalied ati.

**Taffi Triog Llywelyn**

Cerdd yn rhoi i ni hanes gwrthryfel Eileen Beasley. Adroddir y stori yn lân ac yn eglur, gellid fod wedi ceisio adrodd y stori gan ddefnyddio mwy o drosiadau a delweddau newydd , ond fe ddaw hynny hefo profiad.

**Tân Gwyllt**

Cerdd arall wedi ei hadrodd yn syml, hwyrach yn rhy syml. Rhoir i ni hanes Rosa Parkes a'i brwydr yn erbyn hiliaeth, a'r dynion dewr a'i holynodd hi, hyd at George Floyd. Braidd yn bregethwrol yw'r dweud ond mae ymgais i ddelweddu e.e.Ond mae ei lais dal yn fyw,/ yn dawnsio yn ein atgofion.

Yn lle adrodd y stori ceisiwch creu darluniau byw sy'n cyffroi'r dychymyg, ond mae digon o addewid yma.

**Tresi aur**
Cerdd dywyll gan fardd na wêl fawr o obaith i'r ddynoliaeth. Mae ganddo ddarnau da ond dilynir y rhai hynny gan ddarnau rhyddieithol e.e. *A dim ond ein sgrechfeydd yn adleisio/ yn y cregyn ffrwydro/ fydd yma i aros;/ Dim on breuddwydio amdanom fydd modd ei wneud*. Dyma esiampl arall – *Ond mae'r adfail hon o ddynoliaeth/ yn ddigon i fi gredu nad ydw i'n gadael/ gwell fyd.*

Darllenwch eich gwaith yn uchel a gwrandewch ar y gwahaniaeth rhwng hanner cytaf ac ail hanner yr esiamplau hyn. O fod yn mwy cyson ei safon byddai'n uwch yn y gystadleuaeth.

**Ymdaith**
Stori hogyn ysgol cymraeg ei iaith yn gwrthryfela yn erbyn seisnigrwydd ei ysgol. Dywedir y stori yn hamddenol, ond hoffwn petai yna fwy o gig ar yr asgwrn. Mae unig gynghaneddwr y gystadleuaeth yn deall y rheolau, oni bai am un neu ddau lithriad bach ( dylid ateb y clymiad mewn llinellau o gynghanedd lusg e. e.alwai'n llawn am gyfiawnder ). O ran crefft, tuedda i gynghaneddu geirau pob pen i'r llinell, ceisied gynghaneddu'r llinellau ar eu hyd er mwyn amrywio'r rythm. Mae rhan cyntaf y cywydd ar ei hyd yn acennu'n ddiacen, acennog , oni bai am un eithriad; eto mwy o amrywiaeth sydd ei angen. Mae llinellau fel, unig yw bod yn uniaeth ac Yn Medi a'r haf yn 'madael yn dangos ei addewid. Nid ar chwarae bach yr eir ati i ysgrifennu awdl, hefo mwy o brofiad bydd gennym fardd praff.